

## UNED: Y LLO – IECHYD A LLES

### CYFLWYNIAD

Mae gofalu am lo yng nghyfnod cyntaf ei fywyd yn cael effaith fawr ar ei iechyd a'i berfformiad yn nes ymlaen yn ei fywyd. Bydd y problemau a gaiff y llo a chanlyniadau'r problemau hynny, yn dibynnu llawer ar y :

- System fagu artiffisial
- System fagu naturiol

Dydi rhai clefydau ddim ond yn achosi llid ysgafn ac arafu tyfiant y llo, ond mae clefydau eraill yn gallu effeithio'n fwy difrifol neu arwain at glefydau mwy niweidiol neu farwol.

Mae'r clefydau a geir mewn lloi ifanc yn cael eu rhannu i'r categorïau canlynol :

- Clwy'r Cymalau
- Ysgothi
- Niwmonia

Rhaid archwilio'r lloi yn rheolaidd – o leiaf ddwywaith y dydd, ac amlach ar adegau pwysig – a hynny gan berson wedi'i hyfforddi, os am rwystro neu reoli'r problemau hyn.

### CLWY'R CYMALAU

Mae hwn yn digwydd pan fydd bacteria e.e. Streptococws yn mynd i mewn i lif y gwaed ac yn creu llid yn y cymalau. Mae'r anifeiliaid sydd wedi eu heffeithio yn cerdded yn anystwyth, ac mae ganddyn nhw dymheredd uchel.

Dylid trin bogail llo newydd-eni gydag iodid. Dylid diheintio manau lloia yn drwyadl a rhoi gwellt sych a glân ar lawr.

Os bydd y llo wedi cael haint, dylid ei drin â gwrthfotig (gyda/heb gyffuriau eraill e.e. steroidau) o dan gyfarwyddyd y milfeddyg.

### YSGOTHI

Mae ysgothi'n achos difrifol ac yn atal lloi rhag ffynnu. Ar ei waethaf gall achosi lefelau uchel o farwolaethau. Gall ysgothi fod yn ganlyniad i sawl achos - o yfed gormod o laeth i heintiau firaol neu facteriol.

Mae'r ysgôth mwyaf cyffredin yn cael ei achosi gan *E. Coli* neu haint firaol o fewn y 7-10 diwrnod cyntaf. Mae ysgôth system dreulio yn digwydd yr un pryd, a gall *Salmonella* effeithio ar loi hŷn, hyd at 4-6 wythnos oed.

Cyflwr / Ysgôth	Achos	Symptomau	Ei Atal	Triniaeth
'Ysgôth gwyn'	E.Coli	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgôth melyn neu felynwyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Colostrwm yn y 3-4 awr gyntaf ar ôl eu geni</li> <li>Porthi trefnus (amser, tymheredd)</li> <li>Hylendid – porthi a lletya</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhesrwydd (is-goch)</li> <li>Newid y llaeth am electrolyt</li> <li>Gwrthfotig</li> </ul>
Ysgôth Rotafirws / Coronafirws	Haint firaol	Ysgôth melyn, dyfrllyd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Colostrwm yn y 3-4 awr gyntaf</li> <li>Porthi trefnus</li> <li>Hylendid – porthi a lletya</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newid y llaeth am electrolyt</li> <li>Cadw'r llo ar wahân, i leihau'r ymledu</li> </ul>
Ysgôth system dreulio	Gormod o laeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgôth melyn neu felynwyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peidio â rhoi gormod o laeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfyngu'r mynediad i laeth</li> <li>Newid y llaeth am electrolyt</li> </ul>
Ysgôth Salmonela	Salmonela	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgôth yn amrywio o felyn i waedlyd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Awyru heb ddrafft</li> <li>Tymheredd addas a lleithder isel</li> <li>Diheintio</li> <li>Brechu</li> <li>Bioddiogelwch</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ar wahân</li> <li>Milfeddyg</li> </ul>

Mae niwmonia'n un o'r prif broblemau mewn lloi, yn enwedig yn y gaeaf. Achosir hwn gan gyfuniad o :

- Firysau heintus a bacteria

fel arfer yn gysylltiedig â

- Chynllun yr adeilad
- Hwsmonaeth

Achosir y broblem gan firysau a bacteria – mae mwyafrif yr achosion yn cael eu cychwyn gan firysau sy'n gwanhau system imiwnedd y llo, ac yn aml yn gadael i facteria heintio'r anifail a'i effeithio'n llawer mwy difrifol.

<b><i>Arwyddion cynnar</i></b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Llygaid coch</li><li>• Trwyn yn rhedeg</li><li>• Tagu</li><li>• Anadlu cyflym</li><li>• Tymheredd uchel</li></ul>
<b><i>Achosion difrifol</i></b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ddim yn bwyta nac yfed</li><li>• Ar wahân i weddill y grŵp</li><li>• Cefn yn crymu a phen i lawr</li><li>• Anadlu'n drwm</li></ul>

Ffactorau rheoli i'w hystyried :

- Cynllunio a lleoli adeiladau i gael awyriad/ symudiad aer da
- Gwneud yn siŵr bod y gwely'n sych, glân a di-lwch
- Osgoi gorlenwi
- Lleihau'r straen drwy gael cyfnodau rhwng diddyfnu, dilyngyru, pwysu, cymysgu lloi o grwpiau gwahanol

Dylai lloi wedi eu prynu ddod o gyn lleied o ffynonellau â phosib. Dylai'r ffynonellau hynny fod o statws iechyd uchel, a dylai'r trosglwyddo fod mor ddi-straen â phosib i'r lloi.

Bydd triniaeth wrthfiotig (a gwrthlidiol) am 7-10 diwrnod yn effeithiol yn erbyn bacteria yn unig.

Dylid ystyried brechiadau, adeiladau a rheolaeth fel dulliau ar y cyd i ymosod ar y broblem a dylid cael cyngor y milfeddyg i wneud yn siŵr bod y diagnosis yn gywir.

## PARASITIAID

Gall parasitiaid mewnlol ac allanol achosi problemau.

Gall parasitiaid mewnlol ('llyngyr' y coluddyn a llyngyr yr iau) fod yn broblem, yn enwedig mewn amgylchedd pori dwys neu wlyb, ac mae lloi yn eu blwyddyn gyntaf yn fwy tueddol o ddiodef. Bydd rhaid trin y lloi gydag anthelmintig effeithiol drwy'r geg, brechu neu ei arllwys o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid trin anifeiliaid newydd eu prynu mor fuan â phosib ar ôl cyrraedd y fferm.

Bydd ectoparasitiaid e.e. llau i'w cael fel arfer dim ond mewn adeiladau gaeaf, a dylid trin yr anifeiliaid yno ac/neu pan fydd problem yn codi.

## CYNLLUNIO IECHYD

Mae Cynllun Iechyd ar gyfer lloi a stoc ifanc yn hanfodol er mwyn cadw'r problemau hyn dan reolaeth neu eu hosgoi.

Dyma'r prif themâu:

- Maeth - mae gan loi angen colostrwm o fewn y 3-4 awr gyntaf eu bywyd oherwydd ei werth maethol a'i imiwnedd
- Hylendid - mae hylendid adeg geni ac yn ystod bywyd cynnar lloi yn brif ffactor i gadw ysgothi a chlwy' cymalau dan reolaeth
- Mae awyru ac osgoi gorlenwi yn lleihau bygythiad niwmonia
- Dylid lleihau straen wrth beidio â gwneud popeth gyda'i gilydd e.e. digornio, disbaddu, dilyngyru, diddyfnu, cymysgu grwpiau'r un pryd
- Prynu lloi o rai ffynonellau hysbys yn unig
- Asesu lle mae afiechyd a cholledion lloi, ac addasu'r cynllun iechyd os oes angen

## CASGLIAD

Awgrymiadau ar gyfer iechyd lloi:

1. Peidiwch â phrynu clefydau – mae'n well cael uned hunangynhaliol, neu brynu buchod amnewid o ffynonellau lle mae sicrwydd statws iechyd
2. Gwnewch yn siŵr bod arferion lletya a rheoli'n rhai da
3. Monitrwch glefydau drwy gymryd samplau gwaed
4. Gweithiwch yn glos gyda'ch milfeddyg i lunio cynllun iechyd effeithiol
5. Brechwch yn erbyn clefydau na ellir eu dileu
6. Deliwch â'r broblem yn syth

#### FFYNONELLAU GWYBODAETH

*EBLEX (2007) Beef Action for Profit – 20 – Better Returns from Improving Calf Survival*

*EBLEX (2007) Beef Action for Profit – 22 – Better Returns from Tackling Calf Pneumonia*

*EBLEX (2007) Beef Diseases Directory*

*EBLEX (2010) Better Returns from Checking Purchased Stock*

HCC (2007) Cynllunio Iechyd y Fuches - Niwmonia